**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

8fed Ionawr, 2025.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 13eg Ionawr, 2025,** am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes.

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed RHAGFYR, 2024**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod y materion yn codi o'r cofnodion.
**a)Eitem 67 - cymal (a) Cae Capel, Botwnnog**
I adrodd fod llythyr o gefnogaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Cymuned Llannor, Aberdaron a Chyngor Tref Nefyn.
**b)Eitem 67 – Materion Ffyrdd a Llwybrau – cymal (c) Mynwent Llandegwnning**
I adrodd fod mynedfa i Eglwys Llandegwnning wedi cael sylw.
**c)Eitem 67 – cymal (d) Coeden Nadolig/addurniadau i'r potiau blodau**
I adrodd fod taliad o £50, yn unol a phenderfyniad diwethaf y Cyngor, wedi ei wneud i Ganolfan Bryncroes (siec 200845) a Neuadd Goffa Sarn (siec 200844). Mae taliad i Gapel Rhydbach angen ei wneud yn dilyn derbyn anfoneb.
**d)Eitem 70 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**
I gyflwyno atebiad os i law.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I drafod unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.

6. **CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL**
I ystyried cais Cyfeillion Mynwent Mellteyrn. "B"

7. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

8. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.
J.A. Pozzi – torri Comin Bryncroes (cronfa gyfredol) £1,050 + TAW (£1,260)

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – barbio Llwybr Bach, Botwnnog (cronfa gyfredol) | £80 + TAW (£96) |
| J.A. Pozzi – Mynwent Llandegwnnig (cronfa'r Fynwent) | £550 + TAW (£660) |

9. **PRAESEPT 2025/26**

I bennu'r praesept ar gyfer 2025/26 – gweler e-bost gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn amgaeedig. "C"

Anfonir adroddiad ar y sefyllfa ariannol bresennol a'r rhagolygon cyn y Cyngor – hyn yn dilyn derbyn y mantolenni gan y banc.

Yn gywir,

Gwenda Roberts

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**

**Y CYNGHORWYR**

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Efan Thomas
Iwan J. Williams
Elin Hughes
Glyn Roberts
Carys E. Williams
Siôn Williams
Gwenan Griffiths
Michael Strain
Glenys Williams